| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mawrth 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Fel yr uchod** |
| **Teitl:** | **Siarter Archwilio Mewnol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig i ystyried llinellau atebolrwydd diwygiedig, yn dilyn symud y tîm i'r Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I'r Pwyllgor gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Ym mis Ionawr 2014, symudodd Archwilio Mewnol o Cyllid ac Asedau i Gwella Busnes a Moderneiddio, sy'n golygu bod llinellau atebolrwydd y gwasanaeth wedi newid. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn i'r gwasanaeth fod â siarter gyfoes i ddangos ei ddiben, cwmpas, awdurdodiad, llinellau atebolrwydd, adnoddau a threfniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro o ran buddiannau. Mae manylion llawn y rhain yn cael eu dangos yn y Siarter ddiwygiedig yn Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd a chyngor i reolwyr ac aelodau etholedig ar bob lefel ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor. Mae ei waith yn canolbwyntio ar lywodraethu, rheoli risg, perfformiad, effeithlonrwydd a rheolaeth gweithredol ac ariannol, pob un ohonynt yn hanfodol i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae hefyd yn cynnal prosiectau i sicrhau bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a phrosiectau penodol i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth a moderneiddio.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau neu oblygiadau penodol i'r gwasanaeth sy'n codi o'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?  Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Nid yw'r adroddiad hwn angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am unrhyw ymgynghoriadau.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw effaith ariannol, ac felly nid oes angen datganiad.

10. **Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r adroddiad hwn yn ddiwygiad bach o'r Siarter Archwilio Mewnol gyfredol; felly nid oes unrhyw risgiau mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.